OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 191

# Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

## RHAN 4

## CYSYNIADAU ALLWEDDOL

### PENNOD 2

### CYMHWYSTRA

*ADRAN 2*

*Cyfnod cymhwystra*

**Y cyfnod cymhwystra hwyaf – benthyciadau at ffioedd dysgu a grantiau penodedig i fyfyrwyr sydd wedi ymgymryd â chwrs blaenorol**

**15.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i fyfyriwr cymwys—

(a) sy'n ymgymryd â chwrs llawnamser neu gwrs rhyngosod, a

(b) sydd wedi ymgymryd â chwrs blaenorol.

(2) Pan fo'r rheoliad hwn yn gymwys, y cyfnod cymhwystra hwyaf ar gyfer benthyciad at ffioedd dysgu, grant sylfaenol, grant cynhaliaeth neu grant at deithio yw'r cyfnod sydd wedi ei gyfrifo fel a ganlyn—

Cyfnod arferol y cwrs presennol.

*Plws*

Nifer y blynyddoedd academaidd y mae'r myfyriwr cymwys wedi eu hailadrodd am resymau personol anorchfygol.

*Plws*

Un flwyddyn.

*Llai*

Nifer y blynyddoedd academaidd yr ymgymerodd y myfyriwr cymwys â hwy ar y cwrs neu'r cyrsiau blaenorol (os yw'r myfyriwr wedi ymgymryd â mwy nag un cwrs blaenorol).

Ond nid yw didyniad i'w wneud os yw'r myfyriwr ar gwrs hyfforddi athrawon neu os yw'n ymgymryd â chwrs mynediad graddedig carlam.

(3) Os na chwblhaodd y myfyriwr cymwys y cwrs blaenorol diweddaraf yn llwyddiannus am resymau personol anorchfygol—

(a) mae un flwyddyn ychwanegol i'w hadio at y cyfrifiad a wneir o dan baragraff (2), a

(b) caniateir i flwyddyn ychwanegol arall gael ei hadio os yw Gweinidogion Cymru yn meddwl ei bod yn briodol gwneud hynny gan roi sylw i'r rhesymau hynny.

(4) Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu bod rheoliad 18 yn gymwys i fyfyriwr, cânt adio un neu ragor o flynyddoedd ychwanegol at y cyfrifiad a wneir o dan baragraff (2) fel y maent yn meddwl ei bod yn briodol.

(5) Pan fo'r rheoliad hwn a rheoliad 16 yn gymwys i fyfyriwr cymwys, mae cyfnod cymhwystra hwyaf y myfyriwr i gael—

(a) benthyciad at ffioedd dysgu,

(b) grant sylfaenol,

(c) grant cynhaliaeth, neu

(d) grant at deithio

i'w gyfrifo yn unol â rheoliad 16.

(6) Ym mharagraff (2), ystyr "myfyriwr ar gwrs hyfforddi athrawon" yw myfyriwr nad yw'n athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig sy'n ymgymryd â chwrs llawnamser ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon nad yw'n para'n hwy na 2 flynedd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 15 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 12/03/2018.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.